Efa Gruffudd Jones
Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner



Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

**At sylw:**
Prif Weithredwyr

**Trwy e-bost**

07/08/2025

Annwyl Brif Weithredwr,

**Deallusrwydd Artiffisial a'r Gymraeg: Datganiad Polisi Rheoleiddiol**

Rwy'n falch o allu rhannu gyda chi ein datganiad polisi rheoleiddiol newydd ar ddeallusrwydd artiffisial (DA) a'r Gymraeg, sy'n cael ei gyhoeddi heddiw ar faes yr Eisteddfod Genedlaethol yn Wrecsam. Mae'r datganiad polisi ar gael ar ein gwefan yma – Deallusrwydd Artiffisial a'r Gymraeg: Datganiad Polisi Rheoleiddiol

Mae'r datganiad yn cynnig arweiniad a chymorth ymarferol i sefydliadau wrth iddynt ddechrau neu barhau i ddefnyddio technolegau DA wrth gynllunio a darparu gwasanaethau. Wrth i DA ddod yn rhan gynyddol o'r ffordd rydym yn gweithio, mae'n hanfodol sicrhau bod hawliau ieithyddol siaradwyr Cymraeg yn cael eu parchu, a bod dyletswyddau statudol yn parhau i gael eu cyflawni'n llawn.

Rydym yn pwysleisio'r angen i fabwysiadu dull rhagofalus wrth reoleiddio defnydd o DA – gan sicrhau bod unrhyw risgiau posibl i'r Gymraeg yn cael eu hystyried yn gynnar, ac nad yw technoleg yn tanseilio hygrededd gweithrediad safonau'r Gymraeg, nac ymddiriedaeth y cyhoedd yn y gwasanaethau a ddarperir yn eu sgil. Mae'r egwyddor ragofalus hon yn ganolog i'n dull gweithredu.

Mae'r datganiad yn amlinellu egwyddorion allweddol ar gyfer defnyddio DA mewn ffordd sy'n cynnal ac yn hyrwyddo'r Gymraeg, ac yn nodi disgwyliadau clir o ran cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg. Rydym hefyd yn cynnig enghreifftiau ac adnoddau i gefnogi sefydliadau i weithredu'n gyfrifol ac yn rhagweithiol yn y maes hwn.

**Comisiynydd y Gymraeg**
Uned 2, Bloc C
Doc Fictoria
Caernarfon
LL55 1TH

0345 6033 221
post@comisiynyddygymraeg.cymru
**Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg**

comisiynyddygymraeg.cymru

**Welsh Language Commissioner**
Unit 2, Block C
Victoria Dock
Caernarfon
LL55 1TH

0345 6033 221
post@comisiynyddygymraeg.cymru
**Correspondence welcomed in Welsh and English**

welshlanguagecommissioner.wales

Bydd cyfle i drafod y datganiad polisi ymhellach gyda ni fel rhan o’n digwyddiad rhithiol ar 16 Medi, lle byddwn yn archwilio’r goblygiadau ymarferol i sefydliadau ac yn ateb cwestiynau.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu os hoffech drafod y datganiad yn y cyfamser, peidiwch ag oedi rhag cysylltu â’n tîm.

Gyda diolch am eich cydweithrediad parhaus.

Yn gywir

Osian Llywelyn
**Dirprwy Gomisiynydd y Gymraeg a Chyfarwyddwr Rheoleiddio**

Efa Gruffudd Jones
Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner



Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

**For the attention of:**
Chief Executives

**By e-mail**

07/08/2025

Dear Chief Executive,

**Artificial Intelligence and the Welsh Language: Regulatory Policy Statement**

I am pleased to share with you our new regulatory policy statement on artificial intelligence (AI) and the Welsh language, published today at the National Eisteddfod in Wrexham. The policy statement is available on our website here – Artificial Intelligence and the Welsh Language: Regulatory Policy Statement

The statement provides practical guidance and support for organisations as they begin or continue to use AI technologies in the planning and delivery of services. As AI becomes an increasingly integral part of how we work, it is essential that the linguistic rights of Welsh speakers are respected, and that statutory duties continue to be fully met.

We emphasise the need to adopt a precautionary approach when regulating the use of AI – ensuring that any potential risks to the Welsh language are considered at an early stage, and that technology does not undermine the integrity of the Welsh language standards or public trust in the services delivered as a result. This precautionary principle is central to our regulatory approach.

The statement sets out key principles for using AI in ways that support and promote the Welsh language and outlines clear expectations in relation to compliance with the Welsh language standards. We also provide examples and resources to help organisations act responsibly and proactively in this evolving area.

There will be an opportunity to discuss the policy statement further with us as part of our virtual event on 16 September, where we will explore the practical implications for organisations and respond to questions.

If you have any questions or would like to discuss the statement in the meantime, please don’t hesitate to contact our team.

Thank you for your continued cooperation.

Yours sincerely,



Osian Llywelyn
**Deputy Welsh Language Commissioner and Director of Regulation**